

YMA I HELPŪ

Rhian Carruthers Ysgol Bro Myrddin



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Fel mentor i fyfyrwyr addysg a'r rheiny sydd am bontio o'r cynradd a'r uwchradd mae gan Rhian Carruthers rôl hollbwysig wrth sicrhau fod y broses yn un sydd mor llyfn a hawdd ag sydd yn bosib.

Y prif beth yn ôl Rhian yw bod cymorth ar gael ar unrhyw adeg ac nad ydynt yn teimlo eu bod wedi eu hynysu.

"Wrth roi cynllun anwytho mewn lle mae angen cofio y gall y profiad o drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd fod yn un pryderus gan fod y diwylliant, yn aml, yn dra gwahanol. Yr hyn fyddaf i yn gwneud yw eu cyflwyno i'r ysgol, mynd am daith o gwmpas, paratoi pecyn bach iddynt, trefnu cyfarfodydd rheolaidd a bod ar gael ar unrhyw adeg i fod yn gefn iddynt.

"Ond rwy'n eu hannog ar yr un pryd i daflu eu hunain mewn i fywyd yr ysgol fel eu bod yn cael gwell adnabyddiaeth o bopeth sydd yn digwydd."

O'i phrofiad fel mentor mae Rhian hefyd yn ymwybodol o'r manteision i'r sector uwchradd o gael athrawon cynradd yn pontio.

"Yn sicr wrth ddelio gyda disgyblion blwyddyn 7 mae gan yr athrawon cynradd y gallu i uniaethu gyda nhw – i ddeall sut mae nhw'n teimlo wrth

wneud y cam o flwyddyn 6 – gall hynny fod yn allweddol wrth ystyried lles y plant.

"Mae eu profiad yn y cynradd hefyd yn golygu fod yr athrawon yn hyblyg iawn, mae eu sgiliau trawsgwricwlwidd yn wych ac yn bendant yn fanteisiol o ystyried y cwricwlwm newydd sydd ar y gweill. Ac maent fel arfer wedi gwneud llawer o waith allgyrsiol ac mae'r brwdfrydd heintus hwnnw yn trosglwyddo i'r uwchradd ac yn hyfryd i'w weld."

A beth fyddai cyngor Rhian i unrhywun sydd yn ystyried ymgeisio am y raglen bontio?

"Byddwn yn sicr yn awgrymu cychwyn yng nghyfnod allweddol 3 gan nad yw'r newid mor sylweddol, yn enwedig wrth i ni baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, a bydd yn rhoi cyfle i chi ymgartrefu yn haws. Ond fy mhrif sylw fyddai - ewch amdani – mae sicrhau mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd yn hanfodol ac mae'r cyfle hwn yn unigryw – a pheidiwch ag ofni gan fod digon o gymorth a chefnogaeth wrth law."

#AddysguCymru
addysgwyr.cymru